

How The Supporting People Programme In Carmarthenshire Saves Money For Other Areas Of The Public Purse

(Full report available from Supportingpeople@carmarthenshire.gov.uk)

The Supporting People Programme funds services which help people to develop the skills and the confidence to be able to manage to live independently in their own homes.

Supporting People funding totalling **£6,590,899** is invested in terms of Housing Related Support Services in Carmarthenshire.

This shows savings totalling approximately £16,564,504, spread across:

- Social Care and Health (£11,728,702)
- Community Safety (£3,410,697)
- Housing (£1,425,105)

For every **£1 spent, £2.30 is saved**, this is an increase £0.62 on the figure quoted by the 'Cost Benefits of Supporting People Programme' commissioned by the Welsh Assembly Government in September 2006.

Not one single service area knows the true value of the Supporting People programme because savings are spread across them all. This leaves the programme at risk of under investment.

If all service areas recognised and appreciated the value of investing in Housing Related Support Services as a 'spend to save' initiative, this would help stop the need for more costly services.

The Supporting People Planning Group strengthen and facilitate joined up working across service areas. The group sets common objectives which will drive the future development and delivery of housing related support services, as well as agree how funding from each service area is shared for these.

We need to look at the Investment in Older People services to make sure that money is invested where needed.

We also need to look at ways to measure the outcomes for service users and communities to fully appreciate the benefits of the Programme. The costs benefit analysis only considered financial savings, but the Programme has other benefits for individuals, communities and society as a whole, which include improved sense of well-being and safety.

Sut mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn sir gaerfyrddin yn arbed arian i rannau eraill o'r pwrs cyhoeddus

(I gael yr adroddiad llawn, anfonwch neges at: Cefnogipobl@sirgar.gov.uk)

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn ariannu gwasanaethau sy'n helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Trwy gyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl, mae cyfanswm o **£6,590,899** yn cael ei fuddsoddi mewn Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai yn Sir Gaerfyrddin.

Mae hyn yn creu arbedion o oddeutu £16,564,504, a hynny ledled meysydd:

- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (£11,728,702)
- Diogelwch Cymunedol (£3,410,697)
- Tai (£1,425,105)

Am bob **£1 sy'n cael ei gwario, caiff £2.30 ei arbed**, sy'n gynydd o £0.62 ar y ffigwr a nodir yn 'Costau a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Medi 2006.

Nid yw gwerth y rhaglen Cefnogi Pobl yn amlwg i faes gwasanaeth unigol gan fod yr arbedion yn cael eu gwneud ar draws yr holl feysydd. Golyga hyn fod perygl nad oes digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud yn y rhaglen.

Pe bai'r holl feysydd gwasanaeth yn gwerthfawrogi a chydabod gwerth buddsoddi mewn Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai fel menter 'gwario i arbed' byddai'n helpu i osgoi'r angen am wasanaethau mwy costus.

Mae'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl yn cryfhau a hwyluso cydweithio ar draws meysydd gwasanaeth. Mae'n pennu amcanion cyffredin a fydd yn hybu datblygu a darparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn y dyfodol, ac yn cytuno ar sut i rannu'r cyllid rhwng pob maes gwasanaeth ar gyfer y pethau hyn.

Mae angen i ni edrych ar y buddsoddiad yn y Gwasanaethau i Bobl Hŷn er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei fuddsoddi lle mae ei angen.

Er mwyn sylweddoli'n llawn yr hyn yw manteision y Rhaglen, mae angen edrych ar sut y gallwn fesur canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau. Dim ond arbedion ariannol roedd y dadansoddiad cost a manteision yn eu hystyried, ond mae gan y Rhaglen fanteision eraill i unigolion, i gymunedau, ac i'r gymdeithas gyfan, yn cynnwys gwelliant o ran lles a diogelwch.